**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Ysgolion

**Committee Room 3A - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 21 Mawrth 2019 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | S J Gallagher |
| L S Gibbard | D W Helliwell | L James |
| M A Langstone | | |

**Hefyd yn bresennol**
Alison Bastian, Pennaeth Ysgol Gynradd Burlais
Chris Holley, Pennaeth Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Burlais
Fiona Jones, Ymgynghorydd Herio

**Swyddog(ion)**
Michelle Roberts Scrutiny Officer

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): B Hopkins, S M Jones, H M Morris, M Sykes a/ac L J Tyler-Lloyd
Aelodau Cyfetholedig(wyr): D Anderson-Thomas

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Nodiadau a llythyrau cynullyddion**

Derbyniwyd

3 **4.00pm Sesiwn baratoi gydag ymgynghorydd her**

Cyfarfu'r panel gydag Ymgynghorydd Herio'r ysgol i drafod taith wella'r ysgol i baratoi ar gyfer ei sesiwn gydag Ysgol Gynradd Burlais.

4 **4.30pm Ysgol Gynradd Bwrlais**

Cyfarfu'r panel â Phennaeth Ysgol Gynradd Burlais, Alison Bastian, a Chadeirydd y Llywodraethwyr, Chris Holley, i drafod eu taith wella.

Roeddent wedi dewis siarad â'r ysgol hon gan ei bod yn y categori oren ar y matrics cefnogaeth a chategoreiddio. Roedd y panel yn falch o glywed ei bod bellach yn rhan

o'r categori melyn. Roedd y cynghorwyr am drafod yr hyn y mae'r ysgol yn ei wneud i wella'i pherfformiad presennol a'i rhagolygon ar gyfer gwella.

Clywodd y panel gan y Pennaeth am gyd-destun yr ysgol, gan gynnwys y ffaith ei bod yn ysgol newydd sy'n gyfuniad o ddwy ysgol gynradd. Mae'n ysgol gynradd fawr gyda 553 o ddisgyblion ar y gofrestr bresennol ac adlewyrchir hyn yn nifer uchel y staff addysgu a chefnogi. Mae 31.6% o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim ac mae 10.7% ohonynt yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL).

Yn dilyn y sgwrs gyda'r Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Ymgynghorydd Herio, daeth y panel i'r casgliad bod y gwelliannau a roddwyd ar waith yn yr ysgol yn dwyn ffrwyth a bod yr ysgol yn perfformio'n llawer gwell nag yn ystod yr arolygiad gwreiddiol Estyn. Mae tystiolaeth o hyn hefyd wedi cael ei dangos drwy enw'r ysgol yn cael ei dynnu oddi ar restr gweithgaredd dilynol Estyn ym mis Rhagfyr 2018.

Roedd y panel yn teimlo bod hyn yn bennaf oherwydd y rhesymau canlynol:
- Mae gan yr ysgol gorff llywodraethu cefnogol, gwybodus a heriol a chanddo'r sgiliau angenrheidiol i helpu i ysgogi gwelliant.
- Mae Pennaeth ac Uwch-dîm Rheoli'r ysgol yn hollol ymrwymedig i helpu'r ysgol i wella.
- Parodrwydd yr ysgol i weithio gyda'r awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Gwella Addysg a derbyn cefnogaeth ganddynt.
- Glynwyd wrth y cerrig milltir ar gyfer gwella a roddwyd ar waith yn dilyn yr arolygiad.
- Mae'r ysgol yn dysgu trwy weld arfer da gan ysgolion eraill, a thrwy rannu arfer da ag ysgolion eraill.
- Mae'r ysgol yn cael cefnogaeth gref gan rieni a'r gymuned leol, gyda'r ysgol yn cymryd ei rôl yn y gymuned o ddifri.

Diolchodd y panel i Bennaeth, Ymgynghorydd Herio a Chorff Llywodraethu'r ysgol, gan eu llongyfarch am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'r daith wella hon sy'n amlwg yn un llwyddiannus.

5 **Cynllun Gwaith 2018 - 2019.**

Bydd y cyfarfod nesaf ar 2 Mai yn gyfarfod ar y cyd gyda Phanel Craffu'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion a bydd yn ystyried deilliannau addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm